Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

# CYNGOR CAERDYDD

## DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## CYNNIG I SEFYDLU DARPARIAETH FEITHRIN YN YSGOL GYMRAEG COED Y GOF

**HYSBYSIR DRWY HYN** yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig:

- ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Coed y Gof, Rhodfa Beechley, Pentre-baen, Caerdydd, CF5 3SG o 4-11 oed i 3-11 oed drwy sefydlu uned feithrin fel rhan o'r ysgol o fis Medi 2026.

Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Caerdydd ar hyn o bryd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

Agenda Cabinet ar Dydd Iau, 18fed Medi, 2025, 2.00 pm : Cyngor Caerdydd

Cynigir darparu 24 o leoedd meithrin cyfwerth â rhan amser (CRhA). Bydd hyn yn galluogi hyd at 24 o blant meithrin 3-4 oed (o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed) i gael addysg feithrin rhan amser yn yr ysgol.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu o fis Medi 2026.

Bydd nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i'r ysgol yn y Dosbarth Derbyn yn 4 neu 5 oed, yn y flwyddyn ysgol gyntaf o weithredu'r cynnig yn parhau yn 60.

Cyngor Caerdydd fel yr Awdurdod Addysg Lleol fydd yr awdurdod derbyn.

Bydd Ysgol Gymraeg Coed y Gof yn parhau i fod yn ysgol gymunedol a bydd yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw.

Bydd rhieni plant a dderbyniwyd ar gyfer addysg feithrin yn dal angen gwneud cais am le yn yr ysgol berthnasol os ydynt am i'w plentyn i symud i'r dosbarth derbyn. Nid yw mynychu'r feithrinfa yn gwarantu y cewch eich derbyn i'r ysgol.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol. Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk

O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 27 Hydref 2025, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

CARDIFF
CAERDYDD

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn:(029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel:(029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Nodwch fod rhaid i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath gynnwys enw llawn a chyfeiriad post yr un sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 niwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig 30 Medi 2025

Llofnod: D Marles

Debbie Marles
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyr cyffredinol)

Gall plant yng Nghaerdydd gael lle meithrin rhan amser mewn ysgol o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Rhaid iddynt fynd i'r dosbarth meithrin am o leiaf bum hanner diwrnod yr wythnos.

Nid oes dalgylchoedd ar gyfer dosbarthiadau meithrin.

Mae dosbarthiadau meithrin yn cynnwys carfan o 'blant sy'n codi'n 4 oed' yn nhymor yr hydref, ac yn derbyn carfan arall o blant ym mis Ionawr (y rhai a gododd yn 3 oed yn nhymor yr hydref) a charfan arall ym mis Ebrill (y rhai a gododd yn 3 oed yn nhymor y gwanwyn).

Cynigir sefydlu meithrinfa ran amser ar gyfer 24 o blant yn Ysgol Gymraeg Coed y Gof o fis Medi 2026.

Bydd hyn yn galluogi 24 o blant 3-4 oed (o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, nes iddyn nhw fynd i'r dosbarth derbyn) i gael addysg feithrin ran amser yn Ysgol Gymraeg Coed y Gof. Nid yw mynychu'r feithrinfa yn gwarantu lle i blentyn mewn dosbarth derbyn yn yr ysgol.

Bydd y meini prawf derbyn ar gyfer y feithrinfa a'r ysgol ar gael fel rhan o lyfryn "Derbyniadau i Ysgolion" Cyngor Caerdydd.

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

Nid yw'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion meithrin ac ond yn darparu cludiant i ddisgyblion oedran ysgol statudol sy'n byw mwy na'r gofynion pellter statudol ar gyfer oedran disgyblion, ac sy'n mynychu eu hysgol briodol agosaf ar gyfer cyfeiriad eu cartref.

Byddai'r dosbarth meithrin yn cael ei sefydlu o fewn adeiladau presennol, ac felly ychydig iawn o addasiadau ac adnoddau fydd eu hangen i ymestyn yr ystod oedran. Mae uned symudol ddwbl mewn ardal ddiogel gyda'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 ac mae cyfleusterau addas gan gynnwys ardaloedd a rennir a mynedfa allanol ac allanfeydd i ollwng a chasglu disgyblion a allai ddarparu ar gyfer darpariaeth feithrin yn yr ysgol.